**Jeremy Miles AC/AM**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit**
**Counsel General and Brexit Minister**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

12 Medi 2019

Annwyl Mick

Ysgrifennaf i roi gwybod i chi y byddaf, yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, yn mynd i gyfarfod Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) ar 12 Medi 2019.

Yn y cyfarfod, trafodir y Paratoadau ar gyfer Ymadael, negodiadau â'r UE a'r fframweithiau cyffredin.

Byddaf yn egluro mai ymgyrchu i aros y byddwn ni, o wynebu dewis rhwng Brexit heb gytundeb ac aros yn yr UE, a’n bod yn credu bod angen refferendwm er mwyn datrys y sefyllfa bresennol. Mae digwyddiadau'r dyddiau diweddar wedi dangos yr angen i barhau i bwysleisio'r farn bod yn rhaid osgoi Brexit heb gytundeb, a bod parhau â'r ansicrwydd hwn yn gwneud niwed sylweddol i'n heconomi.

Mewn perthynas â'n parodrwydd i adael, rwyf wastad wedi bod yn glir y byddai ymadael heb gytundeb yn drychinebus i Gymru ac i'r DU gyfan, ac yn rhywbeth na ddylid ei ystyried o gwbl. Bydd ymadael â'r UE heb gytundeb yn amharu'n sylweddol ac yn niweidio ein heconomi, gan gael effaith go iawn ar fywoliaeth pobl.

Er gwaetha hyn, rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i baratoi ar gyfer ymadael heb gytundeb. Ond byddaf yn pwysleisio nad yw'n bosibl o gwbl i liniaru'r holl ganlyniadau; y bydd angen sicrhau bod llawer o gyllid ar gael i gefnogi busnesau a phobl Cymru drwy'r cythrwfl; ac na allwn baratoi wrth ein hunain, gan fod ein gallu i baratoi'n effeithiol wedi'i lesteirio gan y diffyg gwybodaeth a roddir i ni gan Lywodraeth y DU.

Byddaf yn parhau i alw ar i'r gweinyddiaethau datganoledig gael eu cynrychioli ar dimau negodi'r DU, ac yn pwysleisio ein hymrwymiad i sicrhau na ddylid cyflwyno safbwyntiau’r DU i’r UE fel rheol heb gytundeb y Gweinyddiaethau Datganoledig o ran y materion hynny sydd o fewn ein cymhwysedd. At hynny, byddaf yn pwyso am yr angen i symud adolygiad Dunlop ymlaen ar fyrder.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSCGBM@gov.wales/YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn cadarnhau ein hymrwymiad i'r broses fframweithiau cyffredin ac yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r angen i ystyried fframweithiau cyffredin fel rhan o system ehangach cysylltiadau rhynglywodraethol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.



**Jeremy Miles AC**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister